Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Taflen waith

# Addasu i Newid Hinsawdd

## Cefndir

Yng Nghymru mae effeithiau newid hinsawdd yn cael eu teimlo'n barod. Mae'r effeithiau hyn yn newid ein tywydd, gan gynyddu amlder tymheredd uchel, stormydd, llifogydd a digwyddiadau tywydd eithafol eraill. Os mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn parhau i gynyddu dywed arbenigwyr y gallai hynny effeithio'n ddifrifol ar ein bywyd o ddydd i ddydd.

Gan fod effeithiau amcanol newid hinsawdd yn dal i gael eu diweddaru, efallai yr hoffech gael golwg ar y ffigurau diweddaraf i gwblhau'r tasgau isod yn gywir.

## Eich tasg

### Cam 1 - Tymheredd

**a.** Defnyddiwch adnoddau ar-lein i gyfrifo beth oedd tymereddau cyfartalog yr haf a'r gaeaf mewn gradd Celsius yn eich lleoliad, yng Nghymru neu'r DU, yn 2018. Yna cyfrifwch y tymheredd cyfartalog ar gyfer y flwyddyn.

**b.** Cofnodwch eich canfyddiadau yn y tabl isod.

**c.** Darganfyddwch beth fydd y tymereddau amcanol ar gyfer yr haf a'r gaeaf yn 2050 drwy gwblhau'r cyfrifiad. Cofnodwch y graddau yn y golofn 2050. Yna cyfrifwch y tymheredd cyfartalog amcanol ar gyfer y flwyddyn.

**ch.** Ailadroddwch y broses i ddarganfod y tymereddau amcanol ar gyfer 2100. Yna cyfrifwch y tymheredd cyfartalog amcanol ar gyfer y flwyddyn.

**Rwyf wedi dewis y data o:**

**Rwy'n credu fod hon yn ffynhonnell wybodaeth dda oherwydd:**

| | 2018 | 2050 | Ysgrifennwch yr ateb yma | 2100 | Ysgrifennwch yr ateb yma |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tymheredd yr haf** | | **Cynnydd o 3.4 gradd Celsius** | | **Cynnydd o 5 gradd Celsius** | |
| **Tymheredd y gaeaf** | | **Cynnydd o 2.5 gradd Celsius** | | **Cynnydd o 5.5 gradd Celsius** | |
| **Tymheredd blynyddol cyfartalog** (Adiwch ffigurau'r haf a'r gaeaf a rhannu â 2) | | | | | |

## Cam 2 - Glawiad

**a.** Defnyddiwch adnoddau ar-lein dibynadwy i ddarganfod beth oedd ein glawiad cyfartalog yn yr haf a'r gaeaf yng Nghymru neu'r DU yn 2018.

**b.** Ychwanegwch eich canfyddiadau at y tabl isod.

**c.** Cyfrifwch y glawiad cyfartalog disgwyliedig ar gyfer haf a gaeaf 2050 drwy ychwanegu neu leihau yn ôl y canran disgwyliedig a gafwyd yng ngholofn 2050 ac ysgrifennwch yr ateb yn y tabl.

**ch.** Ailadroddwch y broses i ddarganfod y glawiad cyfartalog disgwyliedig ar gyfer 2100, a fydd yn ôl y rhagamcan, yn cynyddu neu'n lleihau.

**Rwyf wedi dewis y data o:**

**Rwy'n credu fod hon yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy oherwydd:**

| | 2018 | 2050 | Ysgrifennwch yr ateb yma | 2100 | Ysgrifennwch yr ateb yma |
|---|---|---|---|---|---|
| **Glawiad yr haf** | | **Gostyngiad o 16%** | | **Gostyngiad o 56%**<br>**Cynnydd o 2%** | |
| **Glawiad y gaeaf** | | **Cynnydd o 14%** | | **Cynnydd o 29%** | |
| **Glawiad blynyddol cyfartalog** (Adiwch ffigurau'r haf a'r gaeaf a rhannu â 2) | | | | | |

## Cam 3 – Lefel y môr

**a.** Defnyddiwch adnoddau ar-lein dibynadwy i ddarganfod beth oedd lefel cyfartalog y môr yng Nghymru neu'r DU yn 2018.

**b.** Ychwanegwch eich canfyddiadau at y tabl isod.

**c.** Cyfrifwch lefel gyfartalog ddisgwyliedig y môr ar gyfer 2050 drwy ychwanegu nifer y centimetrau a nodir yng ngholofn 2050 ac ysgrifennwch yr ateb yn y tabl.

**ch.** Ailadroddwch y broses i ddarganfod lefel gyfartalog ddisgwyliedig y môr ar gyfer 2100.

**Rwyf wedi dewis y data o:**

**Rwy'n credu fod hon yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy oherwydd:**

| | 2018 | 2050 | Ysgrifennwch yr ateb yma | 2100 | Ysgrifennwch yr ateb yma |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefel y môr | | Cynnydd o 22cm | | Cynnydd o 1.15 metr | |

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government